# Hypothermia therapiwtig fel triniaeth ar gyfer strôc isgemig acíwt

29 Mai 2019

Ni ddylid defnyddio'r driniaeth hon. Mae'r dystiolaeth yn dangos nad yw'n ddiogel ac nad yw'n gweithio ar gyfer strôc isgemig acíwt.

Mae strôc isgemig yn digwydd pan fydd clot gwaed yn atal llif y gwaed i'r ymennydd. Wedyn caiff meinwe'r ymennydd ei niweidio am nad yw'n cael digon o ocsigen. Yn ystod y driniaeth hon, defnyddir dyfais oeri i ostwng tymheredd y corff rhwng 2ºC a 4°C (gan greu hypothermia) am o leiaf 12 i 24 awr yn union ar ôl strôc. Pan fo'r ymennydd yn oerach, mae angen llai o ocsigen o'r gwaed arno. Y nod yw cyfyngu ar y niwed i gelloedd yr ymennydd a achosir gan y strôc.

Dylai eich gweithiwr gofal iechyd proffesiynol siarad â chi am opsiynau triniaeth eraill.

Mae gan ganllawiau ymyriadau NICE fwy o wybodaeth am driniaethau a sut rydym yn eu hasesu.

ISBN: 978-1-4731-3370-9



© NICE 2019. All rights reserved. Subject to Notice of rights.